

Arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) (Ile rhoddwyd rhybudd)

Nuffield Health

Ysbytai Bae Caerdydd a'r
Vale

20 a 21 Awst 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	4
3.	Cyd-destun.....	5
4.	Crynodeb	6
5.	Canfyddiadau	7
	Ansawdd Profiad y Claf	7
	Cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio(Datguddio Meddygol).8	
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	19
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol	22
6.	Y Camau Nesaf.....	23
	Atodiad A.....	24

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 (a'i ddiwygiadau dilynol yn 2006 a 2011). Rydym yn gwneud hyn trwy raglen o asesu ac arolygu gwasanaethau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn y sectorau annibynnol sy'n defnyddio ymbelydredd Ïoneiddio.

Mae'r rheoliadau'n gosod cyfrifoldebau ar ymarferwyr, gweithredwyr a'r rheiny sy'n atgyfeirio cleifion am ddatguddiadau meddygol, a chyflogwyr y tri grŵp hyn. O dan y rheoliadau, mae'n ofynnol ar y cyflogwr i greu fframwaith ar gyfer cyflenwi ymbelydredd Ïoneiddio mewn modd diogel, effeithlon ac effeithiol trwy ddarparu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig. Gall tramgwyddo'r rheoliadau arwain at gyflwyno hysbysiadau gwahardd, hysbysiadau gwella, neu achosion troseddol.

Dylunnir y rheoliadau i sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu diogelu rhag cael eu datguddio'n anfwriadol, yn ormodol neu'n anghywir i ymbelydredd, ac mae'r risg o ganlyniad i ddatguddio yn cael ei asesu mewn cymhariaeth â'r budd clinigol (cyfiawnhad) ym mhob achos.
- Nid yw cleifion yn cael mwy o ddatguddiad nag sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r budd a ddymunir o fewn cyfyngiadau'r dechnoleg bresennol (optimeiddio).

- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil meddygol yn cael eu diogelu.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan bedair thema:

- Ansawdd Profiad y Claf
- Cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)
- Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth
- Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gasglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) ac uwch-reolwyr
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle bo hyn yn briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio ystafelloedd delweddu a'r amgylchedd
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Mae arolygiadau yn cofnodi ciplun o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Cafodd arolygiad o gydymffurfiaeth mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) ar gyfer delweddu diagnostig ei gynnal ar 20 a 21 Awst 2015 yn adrannau radioleg Ysbyty Bae Caerdydd ac Ysbyty'r Vale, Hensol, sydd oll yn rhan o Nuffield Health. Mae Ysbyty Bae Caerdydd ac Ysbyty'r Vale, Hensol, yn berchen i Nuffield Health ac yn cael eu rhedeg gan yr elusen gofrestredig honno.

Mae Ysbyty Bae Caerdydd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau gofal iechyd preifat sy'n cynnwys ymgynghoriadau i gleifion allanol, ffisiotherapi, a gwasanaethau adsefydlu a diagnostig. Mae Ysbyty'r Vale yn cynnig ystod lawn o glinigau i gleifion allanol, llawfeddygaeth, ac arosiadau preswyl/dros nos.

Mae triniaethau'r ysbyty a'r clinig yn cynnwys amrywiaeth o ymyriadau llawfeddygol ynghyd â llawdriniaethau cosmetig, llawdriniaethau colli pwysau, trin anafiadau chwaraeon, ac orthopedeg, gan gynnwys cymalau newydd.

Mae'r brif adran delweddu diagnostig wedi'i lleoli yn Ysbyty Bae Caerdydd, lle darperir radioleg gyffredinol, fflworosgopeg, tomograffeg gyfrifiadurol symudol, mamograffeg, a gwasanaethau uwchsain. Yn Ysbyty'r Vale, mae delweddu'n cynnwys radioleg gyffredinol, fflworosgopeg theatr, ac uwchsain.

Ategir y gwasanaethau gan gyfanswm o 15 radiolegydd sy'n gweithio ar draws y ddau safle. Mae'r rhan fwyaf o staff radioleg wedi'u lleoli ar un safle, ond mae hanner y staff yn cylchdroi i weithio ar draws y ddau safle.

Mae'r Ganolfan Diogelu Radiolegol yn Ysbyty St George, Llundain, yn darparu cyngor, cefnogaeth a monitro rheolaidd ar ddiogelu ymbelydredd ar gyfer Ysbyty Bae Caerdydd ac Ysbyty'r Vale.

4. Crynodeb

Dyma'r tro cyntaf i AGIC gynnal arolygiad mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn adrannau radioleg Ysbyty Bae Caerdydd ac Ysbyty'r Vale. Cafodd yr arolygiad dderbyniad hynod o dda gan y rheolwyr a'r staff, a chwblhawyd a derbyniwyd yr holl ddogfennaeth cyn-arolygiad o fewn yr amserlenni gofynnol.

Gwnaeth y tîm o fewn yr adrannau ymdrin â'r arolygiad mewn ffordd gadarnhaol iawn, ac roeddent yn awyddus i dderbyn adborth adeiladol i gyd-fynd â'u dulliau o gynnal safonau uchel o ran gofal a gwella'n barhaus. Cawsom groeso cadarnhaol hefyd gan y staff a'r cleifion, a chynigiodd y cleifion adborth ar nifer o faterion.

Roedd y tîm arolygu'n fodlon ac yn hyderus nad oedd unrhyw ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau ac nad oedd unrhyw bryderon ynghylch arferion mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Er ein bod yn fodlon nad oedd unrhyw bryderon diogelwch, fe nodwyd rhai materion yn ystod ein harolygiad lle roedd angen gweithredu. Cafodd y rhain eu mynegi a'u trafod ar adeg yr arolygiad, ac roeddent yn ymwneud yn bennaf â dogfennaeth. Caiff y rhain eu hamlygu a'u disgrifio yng nghorff yr adroddiad.

Ar ddiwedd yr arolygiad, rhoddwyd adborth gennym ar ein prif ganfyddiadau a'n hargymhellion allweddol. Bydd y tîm rheoli yn cyflwyno cynllun gwella mewn ymateb i'n canfyddiadau.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Roedd y cleifion o'r farn bod ansawdd eu profiad yn y ddau ysbyty a ymwelwyd gennym yn dda iawn. Derbyniwyd adborth gadarnhaol am y staff, am yr adran, ac am yr wybodaeth a dderbyniwyd wrthynt, a dywedodd pawb nad oedden nhw wedi profi unrhyw oedi.

Er mwyn casglu safbwyntiau cleifion a'u teuluoedd am y gwasanaeth a gawsant, rhoesom holiadur i nifer o unigolion.

- O'r 17 o holiaduron a roddwyd, dychwelwyd 15. O'r rhai a ddychwelwyd, roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn gadarnhaol ar y cyfan. Er enghraifft, roedd hi'n hawdd dod o hyd i'r adran ac roedd arwyddion clir yn cyfeirio ati.
- Roedd hi'n lân a heb unrhyw annibendod.
- Roedd y wybodaeth a dderbyniwyd gan gleifion yn dda ac yn briodol, ac ni ddywedodd yr un o'r bobl a ymatebodd eu bod wedi profi unrhyw oedi.

Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn arbennig o gadarnhaol am y staff, ac yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn barod eu cymwynas”

“Mae'r staff yn ofalgar iawn ac yn broffesiynol; roedd hi'n bleser cyfarfod a sgwrsio â nhw”

“Maen nhw'n wych”

Hefyd, dywedodd un person:

“Byddwn i'n argymhell y gwasanaeth”

Yr unig sylw a dderbyniom a oedd ychydig bach yn negyddol oedd y gallai fod oedi, ar adegau, gyda phrosesu taliadau. Ond nid oedd hi'n eglur p'un a oedd yr unigolyn yn cyfeirio at y darparwr yswiriant neu at yr ysbyty.

Cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

Dyletswyddau'r cyflogwr

Diffinnir y cyflogwr yn y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) fel unrhyw berson naturiol neu gyfreithlon sydd, yng nghyswllt masnach, busnes neu fenter arall, yn cyflawni (ac eithrio fel gweithiwr cyflogedig), neu'n cyfarwyddo eraill i gyflawni, datguddiadau meddygol neu elfennau ymarferol mewn gweithfa radiolegol benodol.

Mae polisi'r Grŵp ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd Ïoneiddio yn diffinio dyletswyddau'r cyflogwr, fel sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Mae'n disgrifio cyfrifoldebau sefydliadol ac unigol yn eglur. Fodd bynnag, mae'r ddogfen yn cyfeirio at gyfarwyddwyr Ysbyty Nuffield fel rheolwyr sy'n gofrestredig â'r Comisiwn Ansawdd Gofal. Mae hyn yn anghywir am fod y gwasanaeth wedi'i leoli yng Nghymru ac yn cael ei reoleiddio a'i arolygu gan AGIC. Hefyd, ni chedwir y ddogfen hon yn ffeil y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), ac ni chyfeirir ati ynddi, ac mae nifer o weithdrefnau a phrotocolau perthnasol eraill blith draphlith mewn ffeiliau a dogfennau amrywiol. Er enghraifft, nid oedd y weithdrefn Sicrhau Ansawdd – fel sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) – ar gael yn gyfleus. Gall hyn beri dryswch i staff presennol, ac yn enwedig staff newydd. Felly, dylid ystyried adolygu ac aildrefnu'r wybodaeth hon fel ei bod yn cael ei chadw mewn modd mwy trefnus a defnyddiol.

Er hyn, dangosir bod dogfen a fersiwn y polisi yn cael eu rheoli, ac mae'n datgan yn glir ei fod wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Grŵp.

Argymhelliad

Mae angen adolygu cywirdeb polisi'r Grŵp ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd Ïoneiddio, a rhoi lle amlycach iddo yng nghyd-destun y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Gweithdrefnau a phrotocolau

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr fod â gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ar waith.

Roedd pryderon penodol a nodwyd mewn perthynas â gweithdrefnau a phrotocolau yn cynnwys:

- Nid oedd hi'n eglur sut roedd y ddogfen o'r enw 'Gweithdrefnau a Phrotocolau ar gyfer Datguddiadau Meddygol' yn cael ei defnyddio. Y rheswm am hyn oedd ei bod yn gweithredu rôl o fod yn bolisi troswaol yn ogystal â darparu'r gweithdrefnau unigol sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).
- Storiwyd a chyflwynwyd dogfennau mewn modd a allai beri dryswch i staff.
- Roedd yn anodd dod o hyd i'r weithdrefn sicrhau ansawdd, sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), ac ar hyn o bryd nid yw'n ddogfen ar wahân.
- Nid yw'r ddogfen sydd ar hyn o bryd yn cael ei defnyddio fel protocol fflworosgopeg yn brotocol mewn gwirionedd. Mae angen cynnwys gwybodaeth ynddi ynghylch sut yr ymgymrir â gweithdrefnau penodol yn hytrach nag ond cynnwys syniadau cadarnhaol ar gyfer optimeiddio.¹
- Mewn rhai achosion, cyfeiriwyd at bolisiau eraill, er enghraifft dynodi cleifion, ond cedwid y rhain yn rhywle arall.
- Wrth drafod â staff radioleg, roedd yn glir bod y gweithdrefnau a phrotocolau ar gyfer datguddiadau meddygol a ddarperir gan Ysbyty St George wedi cael eu mabwysiadu heb iddynt gael eu haddasu i adlewyrchu arferion lleol yn ysbytai Bae Caerdydd a'r Vale. O ganlyniad,

¹ Proses o gadw dosau unigol mor isel ag sy'n rhesymol bosibl, at y diben a fwriedir, yw optimeiddio.

roedd y gweithdrefnau a gynhwysir ynddynt yn gyffredinol ac yn aml yn brin o fanylion.

Argymhelliad

Adolygu cynnwys y ddogfen ‘Gweithdrefnau a Phrotocolau ar gyfer Datguddiadau Meddygol’ i sicrhau ei bod yn adlewyrchu gofynion y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) a'i bod yn cynnwys digon o fanylion sy'n adlewyrchu arferion lleol.

Sicrhau bod y dull o storio a chyflwyno dogfennau polisi a gweithdrefnau yn eglur i'r holl staff a rheolwyr.

Adolygu'r protocol fflworosgopeg i gynnwys gwybodaeth ynghylch sut yr ymgwymerir â gweithdrefnau penodol.

Hysbysiadau am ddiwyddiadau

Lle bu digwyddiad pan fo unigolyn wedi bod yn agored i lawer mwy na fwriadwyd o ymbelydredd Ïoneiddio wrth dderbyn datguddiad meddygol, mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn nodi y dylai'r sefydliad gofal iechyd ymchwilio iddo a hysbysu'r awdurdod priodol (AGIC).

Mae polisi ar waith ar gyfer datguddiadau damweiniol neu rai na fwriadwyd, ond roedd yn cynnwys gwybodaeth nad oedd yn gyfredol ynglŷn â phrosesau adrodd. Mae angen i fanylion cyswllt y broses hon a'r amserlenni adrodd gael eu haddasu.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y safle wedi cael unrhyw ddiwyddiadau y dylid bod wedi eu hadrodd.

Argymhelliad

Mae angen i'r weithdrefn ar gyfer adrodd ar ddiwyddiadau gael ei hadolygu a'i diwygio i gynnwys gwybodaeth gyfredol.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr nodi lefelau cyfeirio diagnostig² ar gyfer archwiliadau diagnostig radio, gan ddatgan na ddisgwylir i weithdrefnau arferol fynd y tu hwnt i'r rhain pan ddilynnir arfer da a normal o ran perfformiad diagnostig a thechnegol.

Roedd gweithdrefn ar waith mewn perthynas â lefelau cyfeirio diagnostig, ond roedd yn gryno ac nid oedd yn cynnwys y geiriad a nodwyd yn y rheoliadau. Nid oes gwybodaeth yn y weithdrefn sy'n disgrifio ymhle yr arddangosir lefelau cyfeirio diagnostig, na chwaith beth i'w wneud os eir y tu hwnt iddynt yn gyson.

Gwnaed gwaith i sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gyfer nifer o archwiliadau. Roedd y gwaith hwn yn gadarnhaol, ond roedd lefelau cyfeirio diagnostig lleol a chenedlaethol ar waith, oedd yn peri dryswch i staff.

Pan fo lefelau cyfeirio diagnostig lleol wedi cael eu sefydlu, y rhain ddylai fod yn sail ar gyfer monitro.

Wrth drafod â staff, roedd hi'n amlwg bod dryswch ynghylch sut mae defnyddio lefelau cyfeirio diagnostig a beth i'w wneud os eir y tu hwnt iddynt yn gyson.

Argymhelliad

Mae angen adolygu'r weithdrefn ar gyfer defnyddio lefelau cyfeirio diagnostig i gynnwys gwybodaeth leol, er mwyn tywys staff trwy'r drefn o'u defnyddio a beth i'w wneud os eir y tu hwnt iddynt yn gyson.

² Lefelau dos ar gyfer archwiliadau arferol ar oedolion neu blant o faint cymhedrol yw lefelau cyfeirio diagnostig, ar gyfer cyfarpar o fathau cyffredinol. Fe'u defnyddir fel canllaw i helpu i hybu gwelliannau mewn arferion diogelwch ymbelydredd.

Dyletswyddau ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeirwyr

Hawl

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i ddeiliaid dyletswyddau fod â hawl,³ yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r tasgau a wneir ganddynt.

Nid yw'r weithdrefn hawl sydd ar waith ar hyn o bryd yn addas i'r diben, ac ond yn rhoi trosolwg o'r meini prawf ar gyfer bod yn atgyfeiriwr/gweithredwr/ymarferydd. Yn ogystal, mae angen i'r weithdrefn adlewyrchu'r angen i atgyfeirwyr ac ymarferwyr fod yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gofrestredig. Mae angen datblygu hyn ymhellach i adlewyrchu arferion presennol, ac i ddarparu manylion ar sut mae deiliaid dyletswyddau yn meddu ar hawl.

Mae angen i'r weithdrefn egluro beth sy'n digwydd mewn gwirionedd a chyfeirio at gwmpas eu gwaith o ran hawl, ynghyd â sôn am mor bwysig yw sicrhau bod cofnodion hyfforddiant ar waith ac yn eu lle.

Argymhelliad

Mae angen adolygu a diwygio'r weithdrefn hawl er mwyn esbonio sut mae deiliaid dyletswyddau yn meddu ar hawl, a chyfeirio at gwmpas eu gwaith.

Meini prawf atgyfeirio

³ Y broses o ddiffinio'r rolau a'r tasgau y caniateir i unigolion ymgymryd â nhw yw hawl.

Mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn nodi y dylai'r cyflogwr sefydlu argymhellion mewn perthynas â'r meini prawf atgyfeirio ar gyfer datguddiadau meddygol, gan gynnwys dosau ymbelydredd, a sicrhau eu bod ar gael i'r atgyfeiriwr.

Canllawiau Coleg Brenhinol y Radiolegwyr, 'iRefer: Making the Best Use of Clinical Radiology Services', yw'r meini prawf atgyfeirio sydd ar waith yn ysbytai Bae Caerdydd a'r Vale. Mae copïau o'r canllawiau hyn ar gael yn yr ystafelloedd ymgynghori ac yn electronig trwy'r ymgynghorwyr hynny sy'n gweithio hefyd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Fodd bynnag, nid oedd dull ffurfiol ar waith i hysbysu atgyfeirwyr o du allan i'r sefydliad am y meini prawf atgyfeirio. Nid oedd rheolwyr yn eglur sut y byddai atgyfeirwyr allanol yn ymwybodol o iRefer. Tybiwyd, er enghraifft, y byddent yn gweithio yn yr un modd ag ar gyfer cleifion y GIG. Pwysleisiodd y tîm radioleg y byddent yn cwestiynu unrhyw geisiadau anarferol gyda'r radiolegydd ar y safle.

Hefyd, nid oedd dull ffurfiol ar waith ar gyfer atgoffa atgyfeirwyr o'u cyfrifoldebau a'u gofynion o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Yn nogfen 'Gweithdrefnau a Phrotocolau ar gyfer Datguddiadau Meddygol', cyfeirir at 'hunan-geisiadau'. Mae'r ieithwedd hon yn gamarweiniol, megis yn y sefyllfaoedd y cyfeirir atyn nhw yn y ddogfen, mae'r unigolion yn dal i gael eu hatgyfeirio am archwiliad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd â hawl cymwys.

Argymhelliad

Hysbysu atgyfeirwyr allanol am y meini prawf atgyfeirio a ddefnyddir yn ysbytai Bae Caerdydd a'r Vale, a'u hysbysu am eu cyfrifoldebau fel y nodir yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.

Edrych eto ar ddefnydd y term 'hunan-gais', a ddefnyddir yn nogfen y weithdrefn.

Cyfiawnhad o ddatguddiadau meddygol unigol

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyfiawnhau ac awdurdodi pob datguddiad meddygol cyn y datguddiad. Yr ymarferydd sy'n gyfrifol am

gyfiawnhau'r datguddiad meddygol. Ffordd o ddangos y cyflawnwyd cyfiawnhad yw awdurdodiad, a gellir ei gyflawni gan yr ymarferydd neu, pan ddefnyddir canllawiau cyfiawnhau, gan y gweithredwr.

Mae radiograffwyr yn meddu ar hawl fel ymarferwyr radiograffeg gyffredinol. Gan fod pob datguddiad yn cael ei gyfiawnhau a'i awdurdodi gan ymarferydd, nid oes angen canllawiau cyfiawnhau. Mae'n bwysig bod y gweithdrefnau yn cael eu diwygio i adlewyrchu hyn.

Manylion adnabod

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau i adnabod yn gywir yr unigolyn a fydd yn cael ei ddatguddio i ymbelydredd ïoneiddio.

Mae'r weithdrefn a ddefnyddir dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn cyfeirio at ddogfen wahanol ar gyfer adnabod claf, a gedwir mewn lle gwahanol. Er mwyn hybu eu defnydd a dealltwriaeth staff ohonynt, byddai'n haws cadw'r holl weithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn yr un lle.

Roedd y weithdrefn wedi'i hysgrifennu'n dda ac yn addas i'r diben. Fodd bynnag, nid oedd yr arferion da a weithredwyd yn yr adran mewn perthynas ag ymgyrch 'Pwyllo a Gwirio' wedi cael eu hadlewyrchu yn y weithdrefn. Nod yr ymgyrch hon yw lleihau'r tebygolrwydd o gamgymeriadau adnabod fel rhan o'r weithdrefn; mae'n gadarnhaol ei bod yn cael ei chyflwyno gan y gwasanaeth, a gellid adlewyrchu hyn yn y weithdrefn.

Defnyddir rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd yn y theatr i sicrhau bod ganddynt y claf cywir.

Argymhellion

Gweler yr argymhelliad yn yr adran 'Gweithdrefnau a phrotocolau' ynghylch storio a chyflwyno dogfennau.

Adolygu'r weithdrefn adnabod claf er mwyn iddi gynnwys yr arferion nodedig parthed 'Pwyllo a Gwirio'.

Menywod mewn oed i gael plant

Mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys holi menywod sydd mewn oed i gael plant er mwyn darganfod a yw menyw'n feichiog neu a allai fod yn feichiog.

Mae gweithdrefn eglur ar waith ar gyfer canfod statws beichiogrwydd menyw sydd mewn oed i gael plant, ond nid yw'n cynnwys cyfeiriad at y broses o wirio beichiogrwydd mewn theatrau.

Mae testun y weithdrefn hefyd yn wahanol i'r wybodaeth a geir yn y siart lif sydd ynghlwm. Mae'r siart lif yn gynhwysfawr ac yn esbonio beth ddylai staff ei wneud, ond mae angen adolygu'r testun a'i ddiwygio i gyfleu'r un wybodaeth. Wrth drafod â staff ar adeg yr arolygiad, roeddent oll yn gallu dangos beth a wnânt yn ymarferol, a oedd yn unol â'r siart lif.

Gweithredir rheol 28 diwrnod ar gyfer pob archwiliad, ar wahân i'r rheiny sydd â dos uchel i'r ffetws, ond esbonnir hyn ar ddiwedd y weithdrefn bresennol ac mae'r wybodaeth yn guddiedig yn yr adran archwilio dosys uchel. Efallai y byddai'r adran yn dymuno cynnwys y wybodaeth hon yn gynharach yn y weithdrefn i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r broses.

Dylai'r weithdrefn hefyd gynnwys cyfeiriad at y weithdrefn amddiffyn plant ar gyfer sefyllfaoedd pan fo plentyn yn rhoi ymateb cadarnhaol i gwestiwn beichiogrwydd.

Argymhelliad

Mae angen gwneud gwaith i gyfuno'r weithdrefn hon i sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei rhoi i staff ynghylch gwirio statws beichiogrwydd menywod sydd mewn oed i gael plant.

Yn y weithdrefn ddiwygiedig, byddai'n arfer da cynnwys cyfeiriad at y weithdrefn amddiffyn plant pe canfuwyd bod plentyn yn rhoi ymateb cadarnhaol i gwestiwn beichiogrwydd.

Optimeiddio

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai'r tebygolrwydd o roi dos damweiniol neu anfwriadol i glaf yn sgil arferion radiolegol, a maint y dos hwnnw, gael ei gadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol at y diben a fwriedir.

Roedd gweithdrefn ar waith ar gyfer lleihau tebygolrwydd a maint unrhyw ddos damweiniol neu anfwriadol i glaf, yn unol ag Atodlen 1 y rheoliadau, ond nid yw'n cydnabod nac yn tynnu sylw at y gwaith cadarnhaol a wneir yn yr adran. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys pethau megis sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig lleol, cynnal gwaith archwilio, adrodd ar ddigwyddiadau y llwyddwyd i'w hosgoi, a newyddlen Nuffield Health, sy'n tynnu sylw at adborth yn sgil digwyddiadau.

Argymhelliad

Adolygu'r weithdrefn ar gyfer lleihau tebygolrwydd a maint unrhyw ddos damweiniol neu anfwriadol i glaf, er mwyn cyfeirio at y gwaith cadarnhaol a wneir yn yr adran.

Pediatreg

Mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn nodi y dylai'r ymarferydd a'r gweithredwr roi sylw arbennig i optimeiddio datguddiadau meddygol plant.

Ar adeg yr arolygiad, fe'n hysbyswyd mai ychydig iawn o archwiliadau pediatrig sy'n cael eu cynnal. Fodd bynnag, mae siartiau datguddio pediatrig ar waith, sy'n arfer da.

Archwiliadau clinigol

Mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn nodi y dylai gweithdrefnau'r cyflogwr gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol, fel sy'n briodol.

Roedd tystiolaeth o gynnal llawer o weithgarwch archwilio, ynghyd â thystiolaeth o waith dilynol ar ôl archwiliadau, oedd yn gadarnhaol iawn. Ymhlith yr archwiliadau a wnaed oedd:

- Dadansoddi delweddau a wrthodwyd⁴
- Gwerthuso delweddau theatr mewn modd clinigol
- Sicrhau bod atgyfeiriadau wedi'u cwblhau'n gywir
- Archwilio dosau rheolaidd

Cyngor arbenigol

Mae'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau bod arbenigwr ffiseg feddygol yn cymryd rhan, fel sy'n briodol ym mhob datguddiad meddygol radiolegol.

Darperir arbenigedd ffiseg feddygol i'r gwasanaeth gan gynghorwyr diogelu rhag ymbelydredd Ysbyty St George, sydd hefyd yn gweithredu fel arbenigwyr ffiseg feddygol. Mae'r arbenigwr ffiseg feddygol yn cynnal archwiliadau a phrofion cyfarpar yn flynyddol ar bob safle, ac mae hefyd ar gael i roi cyngor pe bai datguddiad damweiniol neu anfwriadol.

Mae'r arbenigwr ffiseg feddygol hefyd ar gael i roi ymgynghoriad neu gyngor i'r gwasanaeth ar unrhyw adeg.

Roedd y cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd/arbenigwr ffiseg feddygol yn bresennol yn ystod yr ymweliad, a oedd yn ddefnyddiol iawn ac yn fodd i gynnal trafodaethau ynglŷn â gweithdrefnau'r cyflogwr.

Cyfarpar

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai'r cyflogwr gadw stocrestr gyfredol o gyfarpar ar gyfer pob gosodiad radiolegol.

Roedd stocrestr offer ar waith, ond roedd gwybodaeth ynghylch y dyddiad cynhyrchu yn eisiau.

⁴ Archwiliad rheolaidd sy'n dadansoddi pam bod angen ail-gynnal delwedd, e.e. bod y claf heb ei leoli'n ddigon da, neu fod darn angenrheidiol o'r corff yn eisiau o'r llun.

Argymhelliad

Rhaid diweddarau'r stocrestr offer er mwyn cynnwys gwybodaeth ynghylch dyddiad cynhyrchu pob darn o gyfarpar.

DRAFT

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd yn eglur o'r ymweliad arolygu bod y tîm rheoli a'r rheolwyr a staff radioleg yn ymroi i roi gwasanaeth o safon uchel sydd yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).

Roedd y tîm yn cydnabod ac yn derbyn y gwaith sydd angen ei wneud er mwyn cyflawni hyn, yn seiliedig ar yr adborth a roddwyd ar adeg yr ymweliad.

Roedd yr holl reolwyr a staff a gyfarfu â'r tîm arolygu wedi ymateb yn gadarnhaol i'r broses yn ei chyfanrwydd, ac yn enwedig i'r ymweliad ei hun. Dangosodd y tîm rheoli eu bod yn awyddus i dderbyn adborth, gyda'r nod o wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Roedd hi'n amlwg, ar sail y gwaith papur a dderbyniwyd a'r trafodaethau a gafwyd â'r staff, bod dylanwadau niferus wedi cael effaith ar wasanaethau radioleg, gan arwain at rai cymhlethdodau a allai beri dryswch i'r staff. Er i'n trafodaethau gyda'r staff ar adeg yr ymweliad gadarnhau eu bod nhw i gyd yn eglur ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol), nid oedd yr hyn a ddisgrifiwyd inni gan y staff bob amser yn adlewyrchu'r hyn a ddynodwyd yn y polisïau a gweithdrefnau.

Mae pwysigrwydd symleiddio'r ddogfennaeth, i sicrhau bod yr hyn sy'n digwydd yn ymarferol wedi'i ddisgrifio'n glir yn y dogfennau, yn sylfaenol bwysig, ac fe'i ategwyd ar adeg yr ymweliad.

Hyfforddiant

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i bob ymarferydd a gweithredwr fod wedi'i hyfforddi'n briodol ar gyfer y tasgau a gyflawnir, a bod y cyflogwr yn cadw cofnodion cyfredol o'r hyfforddiant hwnnw.

Roedd cofnodion hyfforddiant a hyfforddiant sefydlu ar waith ar gyfer yr holl staff oedd yn gweithio yn yr adran, ar wahân i gofnodion hyfforddiant cyfarpar ar gyfer radiolegwyr. Wrth drafod â'r tîm ar adeg yr ymweliad, tynnwyd sylw at bwysigrwydd rhoi'r rhain ar waith.

Awgrymwyd y gellid cyfeirio at hyn yn y ddogfennaeth, naill ai yn yr adran ar hawl neu fel arall yn yr adran 'nodiadau', o dan hyfforddiant yn y ddogfen gweithdrefnau.

Argymhelliad

Adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith, er mwyn cadarnhau a symleiddio'u defnydd.

Adolygu cynnwys rhai o'r gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol.

Datblygu cofnodion hyfforddiant cyfarpar ar gyfer radiolegwyr.

Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Rhaid bod yn rhagweithiol wrth hybu ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl. Rhaid adnabod risgiau, eu monitro a, lle bo'n bosibl, eu lleihau neu eu hatal.

Ar sail ein trafodaethau â'r tîm ar adeg yr ymweliad, oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Ganolfan Diogelu Radiolegol yn Ysbyty St George yn Llundain, mae iechyd a diogelwch y gweithwyr, contractwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn flaenoriaeth glir.

Ar sail yr hyn a welodd ac a drafododd y tîm arolygu yn ystod yr arolygiad, rydym yn fodlon bod y gosodiad uchod yn cael ei gynnal.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn ystod yr ymweliad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn ysbytai Nuffield Health – Bae Caerdydd a'r Vale – yn cael eu hymdrin, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol): Cynllun Gwella

Gwasanaeth cofrestredig: Nuffield Health, Ysbytai Bae Caerdydd a'r Vale

Dyddiad yr arolygiad: 20 a 21 Awst 2015

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Ansawdd Profiad y Claf			
	Dim			
	Cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)			
8	<i>Mae angen adolygu cywirdeb polisi'r Grŵp ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd Ïoneiddio, a rhoi lle amlycach iddo yng nghyd-destun y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).</i>	Mae polisi'r grŵp yn cael ei ddiweddarau i ddangos yn gliriach y modd mae uwch-reolwyr Nuffield yn ymwneud â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol).	Teresa Lack/Ishmail Badr	Rhagfyr 2015
10	<i>Adolygu cynnwys y ddogfen 'Gweithdrefnau a Phrotocolau ar gyfer Datguddiadau Meddygol' i sicrhau ei bod</i>	Mae gweithdrefnau corfforaethol newydd ar gyfer y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) yn cael eu lansio yn Nhachwedd 2015, a bydd y templed a ddarperir gan y Rheolwr	Teresa Lack/Ishmail Badr/Anita Cox	Rhagfyr 2015

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<i>yn adlewyrchu gofynion y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) a'i bod yn cynnwys digon o fanylion sy'n adlewyrchu arferion lleol.</i> <i>Sicrhau bod y dull o storio a chyflwyno dogfennau polisi a gweithdrefnau yn eglur i'r holl staff a rheolwyr.</i> <i>Adolygu'r protocol fflworosgopeg i gynnwys gwybodaeth ynghylch sut yr ymgwymerir â gweithdrefnau penodol.</i>	Ansawdd yn cael ei addasu, pan ddaw, ar gyfer y rheolau lleol. Parhau i gadw copi papur, yn y swyddfa ar bob safle, sy'n gyfleus i'r holl staff radioleg. Caiff staff newydd eu tywys drwy ffeil y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) fel rhan o'r broses sefydlu, a chaiff y ffeil ei chymeradwyo gan y rheolwyr lleol yn flynyddol. Ychwanegir manylion sy'n benodol i'n cyfarpar fflworosgopeg, e.e. y raddfa pwls a ddefnyddir fel rheol (parhaus, cyflym neu araf) a modd y fflworosgopeg (arferol, dos isel neu ansawdd uchel).		
10	<i>Mae angen i'r weithdrefn ar gyfer adrodd ar ddigwyddiadau gael ei hadolygu a'i diwygio i gynnwys gwybodaeth gyfredol.</i>	Mae'r weithdrefn ar gyfer adrodd ar ddigwyddiadau wedi cael ei hadolygu a'i diweddarau.	Anita Cox	Cwblhawyd
11	<i>Mae angen adolygu'r weithdrefn ar gyfer</i>	Mae'r weithdrefn lefelau cyfeirio diagnostig newydd yn eglur bod staff yn ymchwilio pan fydd	Teresa Lack/Ishmail	Ionawr 2016

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<i>defnyddio lefelau cyfeirio diagnostig i gynnwys gwybodaeth leol, er mwyn tywys staff trwy'r drefn o'u defnyddio a beth i'w wneud os eir y tu hwnt iddynt yn gyson.</i>	archwiliad dosau'n dangos bod cymedr y dosys 20% neu fwy dros y lefel cyfeirio diagnostig leol.	Badr/Anita Cox	
12	<i>Mae angen adolygu a diwygio'r weithdrefn hawl er mwyn esbonio sut mae deiliaid dyletswyddau yn meddu ar hawl, a chyfeirio at gwmpas eu gwaith.</i>	Ceir gweithdrefnau newydd ar gyfer y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) sy'n egluro'r broses ar gyfer hawl atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr.	Teresa Lack	Ionawr 2016
13	<i>Hysbysu atgyfeirwyr allanol am y meini prawf atgyfeirio a ddefnyddir yn ysbytai Bae Caerdydd a'r Vale, a'u hysbysu am eu cyfrifoldebau fel y nodir yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.</i> <i>Edrych eto ar ddefnydd y term 'hunan-gais', a ddefnyddir yn nogfen y weithdrefn.</i>	Cynhyrchwyd dogfen Adnabod Atgyfeirwyr. Gwnaed y gweithdrefnau'n fwy clir. Ni all y claf fod yn atgyfeiriwr, ac yn yr achos hynny, byddai gweithiwr gofal iechyd cymwys yn gweithredu rôl atgyfeiriwr dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) os yw claf yn	Teresa Lack/Anita Cox	Ionawr 2016

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		bresennol ar gyfer sgrinio'r fron.		
14	<i>Gweler yr argymhelliad yn yr adran 'Gweithdrefnau a phrotocolau' ynghylch storio a chyflwyno dogfennau.</i> <i>Adolygu'r weithdrefn adnabod claf er mwyn iddi gynnwys yr arferion nodedig parthed 'Pwyllo a Gwirio'.</i>	Ceir copi papur yn swyddfa'r rheolwr radioleg ar bob safle, er mwyn i'r holl staff ei ddefnyddio ac i sicrhau bod rheolwyr lleol yn ei gymeradwyo'n flynyddol. Cedwir copi electronig ar yriant sy'n cael ei rannu gan yr adran. Cedwir yr arwyddion ym mhob ystafell, a bydd y meini prawf 'Pwyllo a Gwirio' yn ymddangos yn y polisi adnabod cleifion.	Teresa Lack/Anita Cox	Ionawr 2016
15	<i>Mae angen gwneud gwaith i gyfuno'r weithdrefn hon i sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei rhoi i staff ynghylch gwirio statws beichiogrwydd menywod sydd mewn oed i gael plant.</i> <i>Yn y weithdrefn ddiwygiedig, byddai'n arfer da cynnwys cyfeiriad at y weithdrefn amddiffyn plant pe canfuwyd bod plentyn yn rhoi ymateb cadarnhaol i gwestiwn beichiogrwydd.</i>	Cynhyrchir gweithdrefn newydd ar gyfer beichiogrwydd, a fydd yn cael ei haddasu i gynnwys y weithdrefn amddiffyn plant a gweithdrefn ddiogelu Nuffield, fel yr argymhellwyd.	Teresa Lack/Anita Cox	Rhagfyr 2015

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
16	<i>Adolygu'r weithdrefn ar gyfer lleihau tebygolrwydd a maint unrhyw ddos damweiniol neu anfwriadol i glaf, er mwyn cyfeirio at y gwaith cadarnhaol a wneir yn yr adran.</i>	Ychwanegwyd y canlynol at restr y weithdrefn: y cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd, adrodd ar ddigwyddiadau, lefelau cyfeirio diagnostig lleol, nodiadau theatr, dadansoddi delweddau a wrthodwyd, sicrhau ansawdd yn lleol, sicrhau ansawdd cyfarpar, ffurflen atgyfeirio, ffurflen Sefydliad Iechyd y Byd, adnabod cleifion, archwiliadau ar ail-ddarllen delweddau, newyddlen Nuffield, ac adrodd ar ddigwyddiadau y llwyddwyd i'w hosgoi.	Anita Cox	Rhagfyr 2015
18	<i>Rhaid diweddarau'r stocrestr offer er mwyn cynnwys gwybodaeth ynghylch dyddiad cynhyrchu pob darn o gyfarpar.</i>	Ychwanegwyd y dyddiad cynhyrchu.	Anita Cox	Cwblhawyd
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
20	<i>Adolygu'r polisiâu a'r gweithdrefnau sydd ar waith, er mwyn cadarnhau a symleiddio'u defnydd.</i> <i>Adolygu cynnwys rhai o'r gweithdrefnau i</i>	Cyflawnir hyn wrth i weithdrefnau'r Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Datguddio Meddygol) gael eu haddasu'n lleol a'u lansio fis nesaf. Cyflwynwyd rhestri gwirio safonol Nuffield ar	Anita Cox	Chwefror 2016

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam gweithredu	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<i>sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol.</i> <i>Datblygu cofnodion hyfforddiant cyfarpar ar gyfer radiolegwyr.</i>	gyfer cyfarpar.		
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol			
	Dim			

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Simon Rogers

Teitl: Cyfarwyddwr yr ysbyty

Llofnod:

Simon Rogers

Dyddiad:

20 Hydref 2015

DRAFT